

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Gwilym O Jones

Grwp: Annibynnol

Ward: Llifon

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn gweithredu fel un o ddau gyngorydd dros Ward Llifon.

Yn ystod y flwyddyn fe'm penodwyd fel aelod o Fwrdd Trawsnewid Plant ac ar Weithgor oedd yn ymateb i gynigion Adroddiad Williams ar Adrefnu Llywodraeth Leol.

Bum yn aelod o nifer o bwyllgorau fel y gwelir isod, a bum yn mynychu sesiynau briffio a hyfforddiant.

Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	¹ Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor	8 (100%)
Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Is-Gadeirydd)	9 (100%)
Is-Bwyllgor Indemnïadau	Dim cyfarfodydd.
Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig	3 (100%)
Cyngor Ymgyghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	3 (100%)
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 cyfarfod (67%). Rwyf hefyd yn Is-Gadeirydd Is-Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth.

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Bum yn delio ag amryw o faterion lleol yn ôl y galw gan gynnwys materion cynllunio, tai, budd-daliadau, priffyrdd a.y.y.b.

¹ Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Parhaodd fy nghyd aelod a minnau gyda'r trefniant o gyfarfod etholwyr ardal Rhosneigr ar foreau Sadwrn yn Neuadd Bentref Rhosneigr er mwyn trafod amrywiol bynciau.

Rwy'n aelod o Gyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll, ac yn mynychu cyfarfodydd Cyngorau Cymuned Y Fali a Llanfaelog yn fisol fel sylwebydd.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Cadeiriais y cyfarfod cyntaf i sefydlu Pwyllgor Apel Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017, ardal Y Fali a Llanynghenedl. Rwy'n aelod o Bwyllgor Apel yr Eisteddfod yn ardal Pencarnisiog hefyd.

Rwyf hefyd yn Aelod o Fforwm Addysg Siarter Iaith Ysgolion sydd yn cael ei arwain gan y Cyngor Sir er mwyn hyrwyddo'r Siarter Iaith mewn ysgolion y Sir.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Ymwybyddiaeth am Ddiogelu	25 Mehefin 2015
Rhiantu Corfforaethol	6 Gorffennaf 2015
Sesiynau Briffio Aelodau (7 allan o 11 = 64%)	Ebrill 2015 – Mawrth 2016

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n gweithredu fel aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Bodedern ac o Is-Bwyllgor Staffio'r Corff. Yn yr un modd, rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Y Fali.

Llwyddwyd i ddarbwyllio'r Awdurdodau perthnasol i gynnal cyfarfodydd rhannu gwybodaeth am Wylfa Newydd ym mhentref Y Fali, yn enwedig gan fod yr A5025 yn cychwyn yn y pentref.

Rwy'n Gadeirydd Papur Bro 'Y Rhwyd' sy'n gweithredu yng Ngorllewin Môn.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=31&LLL=1>

Y Cyngorydd Gwilym O Jones	Ebrill 2016
-----------------------------------	--------------------